**Eitem Rhif ar y Rhaglen**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Dirprwy Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:** **11eg Ionawr 2013**

**PWNC:** **Hyfforddiant Cod Ymddygiad 2012**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Rhoi i'r Aelodau drosolwg o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro ar ôl etholiadau Mai 2012.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad.

2.2 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi pwyslais mawr ar ddarparu rhaglen gynhwysfawr, hygyrch o hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac mae'r Aelodau wedi cefnogi rhaglen 2012, sydd wedi ei chyflwyno gan y Swyddog Monitro mewn nifer o leoliadau, yn ystod y dydd a gyda'r nos, ledled y Sir.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad ar y lefelau mynychu ar lefel Sir a Thref a Chymuned. Dylai'r Aelodau nodi bod nifer arwyddocaol o'n Cynghorwyr Sir hefyd yn Aelodau Tref a Chymuned a byddant wedi eu hyfforddi yn ystod hyfforddiant y Cyngor Sir. At hyn, mae rhai Aelodau wedi mynychu'r hyfforddiant Sirol a Chymunedol a gynigiwyd gan y Swyddog Monitro. Ar ôl y diwygiadau i God Ymddygiad Cynghorwyr Sir, a oedd yn gwneud mynychu hyfforddiant cod yn ystod cyfnod yn y swydd o leiaf unwaith yn orfodol, mae hyn wedi arwain at 45 allan o 47 o Gynghorwyr Sir yn mynychu sesiwn hyfforddi, sy'n gyfradd fynychu o bron i 96%. Mae trafodaethau gan Swyddogion Monitro yng Nghymru ar hyfforddiant Cod yn awgrymu bod hyn yn raddfa lwyddiant ragorol.

2.4 Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i'r Swyddog Monitro o ran asesu pa Gynghorwyr Sir sydd heb eu hyfforddi (gan Gyngor Sir Ddinbych), yn ychwanegol at edrych ar gyfraddau presenoldeb ar draws y bwrdd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn gyffredinol.

2.5 Dylai'r Aelodau hefyd fod yn ymwybodol bod Un Llais Cymru hefyd wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi ledled Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a

Chymuned ac nid yw eu cyfraddau mynychu hwy wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, nac unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno'n fewnol gan Glercod Tref a Chymuned.

2.6 Mewn perthynas â chymharu cyfraddau mynychu ar gyfer sesiynau Tref a Chymuned, ar ôl etholiadau 2008 roedd y ffigurau mynychu ychydig yn uwch gyda chyfanswm o 80 yn mynychu. Ar gyfer y flwyddyn ddinesig hon, y cyfanswm yw 71.

2.7 Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi bod yn ddefnyddiol o ran asesu bylchau mewn hyfforddiant mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig pwyllgorau craffu addysg ar y cod ymddygiad.

2.8 Mae tabl cyfraddau mynychu ynghlwm fel Atodiad 1.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr Aelodau'n cydnabod y cynnydd a gafwyd.

3.2 Bod yr Aelodau yn cefnogi un sesiwn arall i'w gyflwyno yn 2013 ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir (cyfetholedig a'r sawl nas hyfforddwyd yn 2012) i gynnwys neges gref i'w hanfon at y sawl nad ydynt wedi mynychu ar lefel Cyngor Sir eleni i dderbyn cynnig hyfforddiant ymddygiad eleni, boed gan y Cyngor Sir neu mewn man arall.

3.3 Bod yr Aelodau'n cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ysgrifennu at Un Llais Cymru er mwyn canfod y lefel bresenoldeb a gafwyd ganddynt hwy er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Safonau pa gynghorau tref neu gymuned sydd angen cymorth pellach.

3.4 Bod yr Aelodau yn ystyried unrhyw agwedd arall mewn perthynas â thargedu aelodau tref a chymuned, gan gymryd i ystyriaeth bod cyflwyno hyfforddiant yn bersonol gan swyddogion yn drwm ar adnoddau.